Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Ddydd Sadwrn 27 Chwefror 2016 yng Nglantwymyn

2016.01 Addoli agoriadol a chroeso

Rydym wedi croesawu 36 o Gyfeillion i'r Cyfarfod hwn fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Mae *Quaker Faith and Practice* 26.64 wedi'i ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ein haddoli agoriadol.

Mae D. Bryn Jones wedi darparu'r cyfieithu ar y pryd heddiw.

Penodwyd y Cyfeillion canlynol gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:

- Gogledd Cymru: Martin Hughes, Catherine James a Frances Voelcker (yn adrodd).
- Gororau'r De: dim cynrychiolydd wedi'i benodi ond bydd Peter Hussey yn adrodd.
- Canolbarth Cymru: Gethin Evans
- De Cymru: Julia Lim

Ein henaduriaid heddiw yw: Sonia Kuznetsov (Machynlleth) a Gethin Evans (Aberystwyth)

2016.02 *Calon* a *The Friend*
Mae Ben Lightowler wedi cytuno i ysgrifennu arm y Cyfarfod hwn i *Calon.*
Mae Gwyneth Clapham wedi cytuno i ysgrifennu i *The Friend*.

2016.03 Adroddiad Cytûn Mae Deborah Rowlands wedi adrodd mewn cysylltiad â gwaith Cytûn. Ymysg rhai o'i weithgareddau mae presenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod; materion sy'n ymwneud â'r Cynulliad gan gynnwys briffio ar gyfer yr etholiad a chefnogaeth Cytûn i ffoaduriaid. Rhywbeth newydd yw ei aelodaeth o Eco-Eglwys sy'n gydnaws â phryderon Cyfeillion am gynaliadwyedd. Mae Deborah yn dweud ei bod yn teimlo fel pe bai'n rhannu'r un daith pan fydd Cyfeillion yn cydweithio â Cytûn. Rydym yn diolch i Deborah a hefyd yn cofnodi ein bod yn ei chefnogi yn ei rôl fel Clerc y Cyfarfod Blynyddol yn 2016.

2016.04 Adroddiad y Cyfarfod Dioddefiadau (Cyfarfod 6 Chwefror)
Mae Frances Voelcker wedi ein hatgoffa am ehangder a dyfnder ymrwymiadau Cyfeillion. Yn ôl un darn o weinidogaeth, "Mae angen gweledigaeth o'r gymdeithas ehangach," ac roedd y cyfarfod wedi parhau i ymaflyd codwm o ddifri â sut i bennu ein hymatebion i ffoaduriaid ynghyd â gweithio ar *Ein Ffydd yn y Dyfodol*. Frances ei hun oedd wedi cyflwyno'r adroddiad o'r Grŵp Cynaliadwyedd. Mae cael ein holl Gyfarfodydd Ardal i ymgysylltu â materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yn bwysig, fe'n hatgoffodd. Mae'r holl bapurau ar gael ar y wefan newydd yn http://www.quaker.org.uk/our-organisation/meeting-for-sufferings/papers-and-minutes.

2016.05 Adroddiad Cymru'n Cofio: Darparodd Alan Armstrong, ein cynrychiolydd i *Cymru'n Cofio,* adroddiad gan y Grŵp Llywio ar gyfer arddangosfa arfaethedig sy'n canolbwyntio ar Gymru a'r Crynwyr o dan yr enw 'Ffydd a Gweithredu'. Roedd y grŵp hwn wedi cwrdd ddydd Llun 18 Ionawr 2016. Gan mai cymharol ychydig o Grynwyr yng Nghymru a fuasai'n wrthwynebwyr cydwybodol, bydd cwmpas yr arddangosfa'n cael ei ehangu y tu hwnt i waith y Crynwyr. Gwahoddir Cyfeillion i

gyfrannu i'r arddangosfa gyda straeon am waith dros heddwch yng Nghymru. Ni ddisgwylir y bydd yn barod cyn mis Mehefin yn y fan gyntaf a gallai gymryd yn hirach i'w rhoi at ei gilydd.

2016.06 Y diweddaraf ar brosiectau heddwch a Chymru
Mae Jane Harries wedi rhoi adroddiad i ni ar y gwahanol brosiectau sy'n ymwneud â hyrwyddo heddwch yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol: mae'r arddangosfa *Cymru Dros Heddwch* yn Aberystwyth yn codi ymwybyddiaeth pobl o gamau sydd wedi'u cymryd ar sail Ffydd; mae negeseuon heddwch blynyddol Urdd Gobaith Cymru wedi cael eu digideiddio; mae'r Llyfr Cofio ar ddangos yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru tan fis Ebrill ynghyd â straeon am wrthwynebwyr cydwybodol. Anogir pobl i rannu eu straeon. Mae pecyn adnoddau'n cael ei greu i ysgolion ac mae angen gwirfoddolwyr i gynnal gwasanaethau. Rhoddir blaenoriaeth i gymunedau difreintiedig a ffoaduriaid yn y gwaith hwn. Hefyd mae deiseb wedi cael ei hanfon i'r Cynulliad i sefydlu Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol. Bu sôn am filitareiddio ysgolion ac mae'r Cynulliad yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth edrych ar eu canllawiau i'r gwasanaeth gyrfaoedd. Mae Academi Heddwch Cymru'n chwilio am sefydliadau partneriaeth, yn enwedig prifysgolion a allai fynd â'r gwaith rhagddo.

2016.07 Cofnod i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gan Gyfarfod Ardal De Cymru Yn unol â'u Cofnod eu hunain 15:09:11 (Penodiadau x), mae Cyfarfod Ardal De Cymru wedi gofyn i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru benodi 'cyswllt' i Rwydwaith Ymgyrch Dronau Cymru. Dechreuwyd trefnu'r Rhwydwaith yn 2013 pan ddechreuodd dronau gael eu profi yn Aber-porth. Maent hefyd yn cael eu profi yn Llanbedr yng ngogledd Cymru. Teimlodd Cyfarfod Ardal De Cymru y byddai'n bwysig cael presenoldeb yno. Dywedwyd yn y Cyfarfod fod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn ymwybodol o sawl achos sy'n peri pryder yng Nghymru y gall y Crynwyr ymwneud â nhw. Mae rhai ohonom yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd yn lleol ac yn cydweithio â nhw cymaint ag y gallwn. Ni fydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn penodi person cyswllt i'r Rhwydwaith hwn ond mae Cyfeillion ar draws ein Cyfarfodydd Ardal yn cael eu hannog i greu rhwydwaith cyfathrebu iddynt eu hunain ac adrodd wrth ei gilydd. Gyda chytundeb y clercod, gellir defnyddio gwefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru fel cyfrwng i roi cyhoeddusrwydd i rai ymgyrchoedd a digwyddiadau, yn ogystal â'r rhwydwaith e-bostio, gyda swyddog gweinyddol y Cyfarfod yn rhoi dolenni ar y wefan fel bo'n briodol.

2016.08 (a) Yr Eisteddfod Genedlaethol, Y Fenni 2016:
Mae Hilary Beynon a Stevie Krayer, yr unigolion a benodwyd gan y Cyfarfod Ardal i fod yn gydgysylltwyr presenoldeb y Cyfeillion yn Eisteddfod Genedlaethol 2016 yn y Fenni, wedi mynychu'r cyfarfod cynllunio cyntaf. Bydd manylion a cheisiadau am wirfoddolwyr yn cael eu dosbarthu i gyfarfodydd yn y man. Mae Stevie Krayer eisoes wedi sôn mai un peth y gallai Cyfeillion ei drefnu yn yr Eisteddfod eleni fyddai ymweld â Hedd Wen, canolfan lletygarwch ysbrydol o dan ofal Cyfeillion gydag ystafell gyfarfodydd a gardd heddwch.

(b) Sioe Frenhinol Cymru 2016:
Mae Cyfarfod Ardal Gororau'r De wedi methu hyd yn hyn â phenodi person i drefnu presenoldeb y Cyfeillion yn Sioe Frenhinol Cymru, er bod sawl Cyfaill yn y Cyfarfod Ardal wedi dweud ei fod yn fodlon ymweld â hi. Bydd Peter Hussey yn anfon enw Cyfaill a fydd yn ymgymryd â rôl gydlynol ymlaen at y clercod.

2016.09 Darlith yr Eisteddfod 2016.
O'r grŵp cynllunio Darlith yr Eisteddfod mae Lynn Moseley wedi adrodd am gynlluniau ar gyfer y gyntaf o'r tair darlith arfaethedig a drefnir gan y Cyfeillion yng Nghymru. Traddodir y ddarlith yn y Gymraeg gan Gethin Evans ym Mhabell y Cymdeithasau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni a bydd yn sôn am y cyhoeddwr o Grynwr John Edward Southall o Gasnewydd (1855-1928). Hysbysebir hon ymysg Cyfeillion ac eraill ac anogwn bobl i fynychu'r Eisteddfod y diwrnod hwnnw a chefnogi'r

siaradwr a'r ffurf newydd hon ar ymestyn allan. Bydd cyfieithu ar y pryd i unrhyw un sydd ei eisiau. Bydd y ddarlith a'r darlithydd yn cael eu cyflwyno gan J. Gwynfor Jones, Athro Emeritws Hanes Cymru (Prifysgol Caerdydd)).

2016.10 Adnoddau.
Mae'r Grŵp Adnoddau wedi bod yn archwilio ein darpariaeth o ddeunydd ymestyn allan yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ystyried testunau y mae angen ymdrin â nhw. Mae Ros Morley yn adrodd bod baner ddwyieithog *Crynwyr yng Nghymru* i'w chreu y gellir ei chodi mewn digwyddiadau. Byddai'r grŵp yn croesawu argymhellion gan Gyfeillion ynglŷn â pha ddeunydd Crynwraidd y gellid ei ystyried i'w gyfieithu i'r Gymraeg yn y dyfodol. Mae'r grŵp adnoddau'n fodlon cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio darpariaeth Llyfrau Cyswllt Cyfarfodydd Ardal. Bydd hyn o gryn help i glercod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

2016.11 Datganiad gan y Cyfeillion yng Nghymru cyn yr Etholiad.
Mae'r Cyfarfod hwn wedi derbyn datganiad cyn etholiadau Cynulliad Cymru. Bydd Grŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn terfynu'r datganiad yn ei gyfarfod nesaf. Fe'i hanfonir at yr holl ymgeiswyr etholiadol i'r Cynulliad; ei gyhoeddi ar ein gwefan; ei anfon at Cytûn i'w ddosbarthu drwy eu rhwydweithiau hwythau, gyda chopïau i'w hanfon i'r Cyfarfod Dioddefiadau, swyddog cyswllt seneddol Cyfarfod Blynyddol Prydain, clerc y Cyfarfod Cyffredinol i'r Alban a'u dosbarthu fel arall i'r cyfryngau. Cafodd ei ddrafftio gan Grŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Rydym yn diolch i'r grŵp hwnnw am y gwaith y mae'n ei wneud.

2016.12 Crynwyr a datganoli (gweler hefyd 2016.15[iv] isod)
Mae Christine Trevett wedi dweud wrthon ni am ei chyfarfod â'r Clerc Cofnodi Paul Parker a Martin Burnell, clerc y Cyfarfod Cyffredinol i'r Alban, yng Nghaeredin ym mis Ionawr. Mae cydnabyddiaeth gynyddol ymysg staff Friend's House fod gan ddatganoli gwleidyddol arwyddocâd ar hyn o bryd ac o bosib i'r dyfodol i strwythurau a busnes Cyfarfod Blynyddol Prydain. Mae hyn yn gofyn mwy o ystyriaeth yn ogystal â'r iaith a ddefnyddir yn nogfennau'r Crynwyr i ddisgrifio'r Alban a Chymru yng nghyd-destun y Crynwyr, er mwyn osgoi deall a chyflwyno Crynwriaeth mewn ffordd Eingl-ganolog. Ar ryw adeg yn y dyfodol, mae effaith datganoli cynyddol yn debygol o godi'i ben ar agenda'r Cyfarfod Blynyddol. Fe'n hatgoffir ei bod yn bwysig bod presenoldeb o Gymru yn y Gynhadledd Ffustio ar gyfer Pwyllgor Agenda'r Cyfarfod Blynyddol a'r Cyfarfod Dioddefiadau sy'n digwydd yn Woodbrooke ym mis Tachwedd eleni. Teimlid bod y cyfarfod hwn yng Nghaeredin yn werthfawr a chytunwyd y byddai clercod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a'r Cyfarfod Cyffredinol i'r Alban yn cwrdd yn flynyddol â'r Clerc Cofnodi a Chlerc y Cyfarfod Dioddefiadau. Bydd Paul Parker yn ymweld â ni yn ein cyfarfod yn Llanidloes ym mis Hydref 2016.

2016.13 Ymddiriedolwyr a Chyllid
Mae Frank Brown, y clerc ar gyfer Ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, wedi siarad am yr Adroddiad Blynyddol sydd wedi cael ei dderbyn gan yr Ymddiriedolwyr. Mae ar gael ar y wefan a gellir cael copïau papur drwy ein swyddog gweinyddol. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adrodd wrth y Comisiynwyr Elusennau yn ôl y gofyn.

Adroddiad ariannol
Mae'r Trysorydd sy'n ymadael â'i swydd, Lynn Moseley, yn adrodd bod sefyllfa ariannol Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn sefydlog ar ôl cyfnod prysur, gyda digon o adnoddau wrth gefn i ateb gofynion nad oes modd eu rhagweld. Mae grant 2016 o Gyfarfod Blynyddol Prydain wedi'i dderbyn. Nodwn, gyda diwedd Prosiect Lleisiau Cydwybod Digidol, fod gweddill yr arian yn y gronfa gyfyngedig yr oedd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn ei oruchwylio bellach wedi'i ryddhau. Penderfynwyd cau dwy gronfa gyfyngedig fach arall fel bod pob cronfa o'r fath bellach wedi'i chau.

Mae'r gronfa a adwaenid gynt fel Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree (sydd bellach yn cael ei hadnabod fel y Gronfa Brosiectau) yn cynnwys £2725.62, i'w ddefnyddio yn y lle cyntaf i gyllido mwy o waith ar wefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd £965 wedi cael ei wario ar gymorth yr ymgynghorydd TG. Oherwydd y dylai'r gronfa hon hefyd wasanaethu ymestyn allan cyffredinol, dylai'r gwariant gael ei gynnwys yn yr adolygiad o faterion y wefan i'w gynnal yn 2016.

Mae Martin Hughes yn cymryd lle Lynn Moseley fel Trysorydd ac rydym yn diolch iddi am ei gweinidogaeth yn y rôl honno.

2016.14 Siaradwyr: Alan a Marilyn Thomas, **'Gweithio â Ffoaduriaid Nawr, mewn Ffyrdd Ymarferol'.**

Mae Marilyn ac Alan Thomas o Gwrdd Abertawe wedi cyflwyno darlun cyfoethog ac ysgogol o'u gwaith gyda Dinas Nodded i ni. Mae'r elusen Ceiswyr Lloches Bae Abertawe yn cefnogi pobl sy'n cael eu lleoli yn Abertawe. Yn wreiddiol, byddent yn cyfarfod fel grŵp cyfeillgarwch y mae gwahanol fentrau wedi datblygu ohono, er enghraifft, grŵp cyfreithiol yn ogystal â grŵp o bobl sy'n cynnig eu stafelloedd sbâr fel llety. Maent eisiau i Gymru gael ei dynodi'n genedl nodded.

Mae ffoaduriaid yn gwneud cyfraniad sylweddol i gymdeithas. Clywsom gerddi teimladwy am golled a'n gwnaeth yn boenus o ymwybodol o'r amddifadedd y gall ffoaduriaid ei brofi. Mae cynnig llywodraeth San Steffan i gymryd 20,000 o ffoaduriaid dros bum mlynedd yn syrthio'n drychinebus o brin o anghenion y miliynau sydd wedi'u dadleoli ac sydd angen cael eu hadleoli. Bu'r siaradwyr yn disgrifio sut mae ceiswyr lloches yn gorfod mynd drwy broses hir a phryderus cyn iddynt gael eu derbyn fel ffoaduriaid gan lywodraeth nad yw'n poeni fawr ddim am y caledi y maent yn ei ddioddef. Mae llawer yn cael eu hamddifadu neu eu hanfon yn annheg o'r wlad. Os gwrthodir lloches, mae'r ychydig gefnogaeth sydd wedi'i rhoi'n cael ei hatal. Mae'r esgus am amddifadu pobl yn aml yn ffug ac agwedd arferol y rhai sy'n cyfweld yw peidio â chredu. Yn aml, bydd pobl sydd wedi cael eu gwrthod ar y dechrau'n cael Caniatâd i Aros wrth apelio, sy'n dangos hyd a lled y camgymeriadau yn y penderfyniadau. Yn gynyddol, mae canolfannau cadw a hosteli'n cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat nad ydynt yn cael eu rheoli ac sy'n gallu gostwng safon y llety'n enbyd. Oherwydd bod symud pobl o'r wlad yn ddrud, yn aml bydd pobl yn cael eu gadael yn amddifad am flynyddoedd ac yn troi at waith sy'n ymwela arnynt neu buteindra. Gall cynnig llety i bobl o fewn y cynllun cymorth roi llawer o fodlonrwydd a llawenydd, os cytunir ar rai amodau ar gyfer bywyd yr aelwyd. Mae angen digwyddiadau codi arian ac anogir pobl i'w trefnu.

Fe wnaeth ystyried y problemau a brofir gan geiswyr lloches i ni fod yn fwy ymwybodol o'r helbulon y maent angen help â nhw. Mae cysylltiadau personol yn hanfodol a gellir trefnu llawer o wahanol weithgareddau i godi ymwybyddiaeth neu ddarparu cymorth ymarferol. Mae *Nacom: Syria Relief* a llawer o sefydliadau eraill yn gweithio ar hyn yn barod ac anogir Cyfeillion i gydweithio â nhw yn ogystal â herio'r naratif swyddogol bod pobl yng Nghymru'n elyniaethus tuag at ffoaduriaid. Gallem ysgrifennu llythyrau i'r wasg sy'n dangos haelioni pobl leol.

Mae Dinas Nodded wedi cynnig chwe syniad ymarferol ynglŷn â sut gallem helpu – ewch draw at eu gwefan www.cityofsanctuary.org . Mae croesawu pobl yn gwneud unrhyw gymuned yn well cymuned. Does dim byd sy'n ein gwneud yn fwy dynol nac ymestyn allan at ein cyd-ddyn. Diolchwn i Marilyn ac Alan am eu cyfraniad teimladwy.

2016.15 Cofnodion – rhwng cyfarfodydd

(i) Ar 4 Tachwedd 2015, anfonodd y clercod Ros Morley a Christine Trevett lythyr ar ran Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru at Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad, gan annog sefydlu Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol yng Nghymru.

(ii) Bu Grŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a gynullwyd gan Gethin Evans, ac mewn ymgynghoriad â'r clercod, yn darparu ymateb gan y Crynwyr i ymgynghoriad Tachwedd 2015 Llywodraeth Cymru ar Fil Isafbris Alcohol.

(iii) Ar 28 Ionawr 2016 yng Nghaerdydd, bu Gethin Evans yn cynrychioli Cyfeillion yng nghyfarfod cyntaf Fforwm newydd Addoldai Cymru, oedd yn cyd-ddigwydd â lansio Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Addoldai Hanesyddol yng Nghymru.

(iv) Ar gais y Clerc Cofnodi, Paul Parker, bu Christine Trevett yn mynychu cyfarfod gydag ef a chlerc Cyfarfod Cyffredinol yr Alban yng Nghaeredin ar 29 Ionawr 2016, i drafod ymhellach Gofnod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru (2015:19) i bwyllgor agenda Cyfarfod Blynyddol Prydain mewn cysylltiad â datganoli â Chyfarfod Blynyddol Prydain. Roedd y Cofnod wedi darllen fel a ganlyn:

> 2015.19 Cofnod i Bwyllgor Agenda Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol
> Gyda datganoli cynyddol i'r Alban ac i Gymru, mae'n bwysig bod Cyfarfod Blynyddol Prydain yn glir nad yw'n siarad dros Brydain Fawr gyfan pan, yn ddamweiniol, fydd cyhoeddiadau, gweithgareddau gwaith a reolir yn ganolog neu ddatganiadau'n anwybyddu'r realiti yn y cenhedloedd datganoledig. Cytunwn i anfod y cofnod hwn at y pwyllgor agenda yn awgrymu y dylai eitem mewn Cyfarfod Blynyddol yn y dyfodol drafod effeithiau datganoli ar Gymdeithas y Cyfeillion. Cytunwn i anfon y cofnod hwn at y Pwyllgor Agenda.

2016.16 Enwebiadau a Phenodiadau
Soniwyd am a/neu cytunwyd ar y canlynol

Dyddiadau diwedd gwasanaeth Grŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru
Catherine James 31 Rhagfyr 2016 Gethin Evans 31 Rhagfyr 2017
Alun Williams 31 Rhagfyr 2018 David Harries 31 Rhagfyr 2018
Yn wyneb anhawster hirhoedlog wrth gael hyd i Gyfaill ifanc i wasanaethu ar y Grŵp Ffocws, mae'r eitem hon wedi'i thynnu a bydd y Grŵp Enwebiadau'n ystyried gyda chynullydd y Grŵp Ffocws ffyrdd eraill o gael mewnbwn gan Gyfeillion iau.

Cywiriad i dymor penodiad yn y Cofnodion
Dylai penodiad Julia Lim i'r Grŵp Enwebiadau, y cofnodwyd yn 2015.31 y byddai'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2016, fod wedi darllen 2017.

Penodiadau Cyfarfodydd Ardal i waith ymestyn allan:
Mae Cyfarfod Ardal De'r Gororau wedi'i wahodd i benodi Cyfaill neu ddau ym mhob achos i gydlynu cyfraniad y Cyfeillion i weithgarwch eciwmenaidd yn Sioe Frenhinol Cymru 2016 yn Llanelwedd (18 – 21 Gorffennaf) a'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni (29 Gorffennaf – 6 Awst).
Ar gyfer yr Eisteddfod: Hilary Beynon a Stevie Krayer (Y Fenni).
Ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru: yn aros am gydlynydd enwebedig.

Penodai i Gyfarfod y Dioddefiadau
Mae David Jones wedi'i ryddhau o'i rôl fel cynrychiolydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yng Nghyfarfod y Dioddefiadau. Rhwng Cyfarfodydd, mae enw Gethin Evans wedi'i roi gerbron Cyfarfod y Dioddefiadau i'w ystyried.

Penodiadau Rhwng Cyfarfodydd
I wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau o 01.01.2016 tan 31 Rhagfyr 2018:
Pauline Brind a Joyce Gooding.

Enwau a dducpwyd gerbron (mae'r Cyfeillion enwebedig yn gadael yr ystafell)

Cyfaill o Ororau'r De i wasanaethu ar Grŵp Ffocws Cymru yn ddiymdroi a hyd at 31 Rhagfyr 2018. Peter Hussey (Cyfarfod Ardal De'r Gororau)

Cyfaill ar gyfer y Grŵp Adnoddau'n ddiymdroi a hyd at 31 Rhagfyr 2018. Greg Hill (Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru)

Cyfaill sydd â phrofiad o dechnoleg gwefannau i weithio mewn grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r wefan, hyd at fis Mehefin 2016. Alma Whitton (Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru)

Cyfaill i weithio mewn grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu clerciaeth a gweinyddiaeth Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, hyd at fis Mehefin 2016. Liz McDermott. (Cyfarfod Ardal De Cymru)

A bwrw bod yr enwau hyn yn dderbyniol, penodir y Cyfeillion dan sylw.

Enwebiadau a geisir
Cyfaill i wasanaethu ar y Grŵp Adnoddau, yn ddiymdroi a hyd at 31 Rhagfyr 2018.

Cyfaill o Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau'n ddiymdroi a hyd at 31 Rhagfyr 2018.

Clerc cynorthwyol yn ddiymdroi a hyd at 31 Rhagfyr 2016

Archifydd i gofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu'n ddiymdroi a hyd at 31 Rhagfyr 2018

Cyfaill Cymraeg ei iaith i weithio mewn Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r wefan, hyd at fis Mehefin 2016.

<u>Llofnodwyd gan y cyd-glercod</u>

---------- ----- ----------

Christine Trevett Efa Wulle